

Kenneth Gibson  
Cynullydd  
Y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus  
Senedd yr Alban

Dr Steve Aiken  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Gogledd Iwerddon

8 Gorffennaf 2021

Annwyl Kenneth Gibson a Dr Steve Aiken,

### **Gweithio ar y cyd yn y dyfodol**

Rwyf yn ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hun fel Cadeirydd newydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru. Rwyf yn ymwybodol o'r berthynas adeiladol a chydweithredol a fu rhwng y pwyllgor rhagflaenol hwn, Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus rhagflaenol Senedd yr Alban a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon, ac rwy'n mawr obeithio y bydd y berthynas gadarnhaol hon yn parhau yn y dyfodol.

O ran cydweithio yn y dyfodol, mae ein Pwyllgor yn awyddus i fynd ar drywydd sawl mater gyda'r sefydliadau datganoledig eraill. O safbwynt ein Pwyllgor, mae llawer o'r materion hyn yn ymwneud â chyfathrebu anfoddfaol Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru, a chyda'r Pwyllgor Cyllid a oedd yn ein rhagflaenu.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021 i 2022. Yn ystod y cyfarfod hwn, tynnodd y Gweinidog sylw at yr anawsterau parhaus a gafwyd wrth gael eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cyllid canlyniadol Barnett:

*"...you'll be aware of UK Government's announcements in respect of education recently. Now, we haven't been able to determine whether that's new money, whether it's repurposed funding, whether it's reannouncing previously-announced funding, and as such, we're unable to get a clear picture as to what our, if anything, Barnett consequential would be as a result of that announcement, and that's just one example."*

At hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cyfathrebu a chraffu ar drefniadau ariannol â Llywodraeth y DU yn addas at y diben. Awgrymodd adroddiad gwaddol y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylid gweithio'n agosach gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r Pwyllgor Materion



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddFinance@senedd.wales

0300 200 6565

Cymreig i roi pwysau ar y cyd ar Lywodraeth y DU i ddarparu eglurder ynghylch penderfyniadau cyllido.

Dim ond dau o'r materion y mae'r Pwyllgor yn awyddus i fynd ar eu trywydd ar y cyd â'ch priod bwyllgorau yw'r rhain, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar weithio ar y cyd yn y dyfodol.

Efallai y byddai'n werth i ni drefnu cyfarfod fel Cadeiryddion ein priod bwyllgorau, fel y gallwn drafod y materion hyn ymhellach.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

